

Jisc

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Gwella Dyfodol Digidol Addysg Bellach Cymru

Blaenoriaethau a buddsoddiad cynaliadwy y tu hwnt i Ddigidol 2030

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Medr a'i chynnal gan Jisc i asesu anghenion buddsoddi digidol Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'n archwilio sut mae colegau wedi defnyddio cyllid Galwad i Weithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022–25 i gryfhau dysgu digidol ac yn nodi beth sydd ei angen nawr i gynnal a graddio'r cynnydd hwn. Bwriad yr adroddiad yw llywio penderfyniadau polisi a chyllido yn y dyfodol a chynorthwyo arweinwyr colegau i lunio cam nesaf y trawsnewid digidol ar draws sector AB Cymru.

Gan dynnu ar ddadansoddiad desg a chyfweliadau ag uwch arweinwyr o bob un o'r 13 Sefydliad Addysg Bellach, Colegau Cymru ac Estyn, mae'r astudiaeth yn adeiladu ar fframwaith Digidol 2030, a gyd-grëwyd yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, y sector ôl-16 a Jisc, sy'n parhau i arwain dysgu ac addysgu digidol yng Nghymru.



Sylfaen gref ar gyfer trawsnewid digidol

Ers lansio Digidol 2030 yn 2019 a chyflwyno'r cyllid Galwad i Weithredu yn 2022, mae'r sector AB wedi cyflawni cynnydd mesuradwy sydd wedi cryfhau ei allu a'i wydnwch.

Gyda'i gilydd mae'r mentrau hyn wedi:

- Galluogi dros £9 miliwn o fuddsoddiad wedi'i dargedu mewn rhwydweithiau, dyfeisiau, dysgu hybrid, hygyrchedd a seiberddiogelwch
- Cyflymu hyder digidol ymhlith staff a dysgwyr, wedi'i gefnogi gan ddysgu proffesiynol a rhwydweithiau cymheiriaid
- Gwella cynhwysiant a hygyrchedd, gyda chynlluniau benthyg dyfeisiau, archwiliadau hygyrchedd a chyflwyniad dwyieithog bellach wedi'u hymgorffori yn y ddarpariaeth
- Cryfhau arweinyddiaeth a chydweithio, gyda strategaethau digidol wedi'u datblygu ym mhob coleg a chydlynu gweithredol ar draws y rhwydwaith AB
- Mae colegau'n adrodd am effaith glir o ran Wi-Fi a chysylltedd gwell, seiber wydnwch gwell trwy bartneriaeth â Jisc, amgylcheddau dysgu wedi'u moderneiddio a mwy o ymgysylltiad â dysgwyr trwy lwyfannau digidol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel AI ac XR

Heriau i gynnal cynnydd

Er bod cynnydd sylweddol wedi bod, mae arweinwyr AB yn tynnu sylw at gyfres o heriau a allai gyfyngu ar effaith yn y dyfodol os na chânt eu datrys drwy gynllunio a buddsoddi hirdymor:

- Cylchoedd ariannu tymor byr, sy'n canolbwyntio ar gyfalaf, sy'n cyfyngu ar gynaliadwyedd a chydweithio ledled y sector
- Fframweithiau polisi a chyllido nad ydynt wedi addasu'n llawn eto i wasanaethau cwmwl a mabwysiadu deallusrwydd artiffisial
- Cysylltedd anghyson, yn effeithio'n arbennig ar gampysau gwledig
- Costau seiberddiogelwch a thrwyddedu cynyddol
- Pwysau staffio a bylchau sgiliau digidol



Blaenoriaethau strategol ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol

Mae'r astudiaeth yn nodi chwe blaenoriaeth gyd-gysylltiedig a fydd yn galluogi sector AB Cymru i adeiladu ar ei lwyddiant presennol a chyflawni trawsnewid digidol cynaliadwy sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol:

1. **Newid y mecanweithiau ariannu** – Cyflwyno cyllid hyblyg, amlflwyddyn sy'n cyfuno elfennau cyfalaf a refeniw, gan gydnabod seilwaith digidol fel angen gweithredol parhaus yn hytrach na buddsoddiad untro.
2. **Cysondeb a chynnal a chadw technolegau** – Sefydlu cyllid cynaliadwy a safonau cenedlaethol clir ar gyfer cysylltedd, seiberddiogelwch a chynnal a chadw seilwaith.
3. **Annog pobl i ddefnyddio technolegau sy'n dod i'r amlwg** – Cefnogi arloesedd cynaliadwy mewn deallusrwydd artiffisial ac XR, cydnabod asedau digidol anniriaethol a galluogi datblygu technoleg ddwyieithog.
4. **Ymgorffori Deallusrwydd Artiffisial (AI)** – Adnewyddu Digidol 2030 drwy lens AI, wedi'i arwain gan bolisi a buddsoddiad cydlynol i sicrhau defnydd teg a moesegol.
5. **Staffio a sgiliau** – Buddsoddi mewn dysgu proffesiynol, rolau arbenigol a rennir a safonau cymhwysedd digidol cenedlaethol i gryfhau gallu'r gweithlu.
6. **Datrysiadau cydweithredol** – Adeiladu ar bartneriaethau lleol cryf i ddatblygu gwasanaethau a rennir ar draws y sector, caffael a chydlynu seilwaith sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian.

Cyfeiriad cyffredin ar gyfer y sector

Mae ymrwymiad strategol Llywodraeth Cymru drwy Digidol 2030 a'r Galwad i Weithredu wedi bod yn allweddol wrth gyflymu trawsnewid digidol. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am ddysgu digidol a chyllid AB i Medr yn 2024, gan gynnig cyfle i atgyfnerthu'r llwyddiant hwnnw trwy ddull cydlynol, hirdymor.

Mae'r canfyddiadau'n dangos bod sector AB Cymru yn barod i symud o fuddsoddiad untro i strategaeth ddigidol gynaliadwy. Mae colegau wedi meithrin arweinyddiaeth a gallu cryf; yr hyn sydd ei angen nawr yw sefydlogrwydd polisi a chyllid i gyd-fynd â'r uchelgais honno.

Gyda chydweithrediad parhaus rhwng Medr, Llywodraeth Cymru, Jisc a'r sector AB, gall Cymru ddarparu system ôl-16 sy'n gydnerth, yn gynhwysol ac yn hyderus yn ddigidol, gan wireddu uchelgais Digidol 2030.